## PWYLLGOR EWROPEAIDD A MATERION ALLANOL EUR-03-02(min)

## COFNODION

**Dyddiad:** 8 Mai 2002

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Rhodri Morgan (Cadeirydd) | Gorllewin Caerdydd |
| Nicholas Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Tom Middlehurst | Alyn a Glannau Dyfrdwy |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Gwahoddedigion Sefydlog**

| | |
|---|---|
| Janet Davies AC | Pwyllgor y Rhanbarthau |
| Catherine Eva | Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| Jos Gallagher | Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| Y Cynghorydd Jon Huish | Pwyllgor y Rhanbarthau |

| | |
|---|---|
| George Wright | Y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol |

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Jan Olbrycht | Marsial y Voivodeship Silesaidd |
| John Casterton | Tasglu’r Ewro yng Nghymru |
| Russell Lawson | Pennaeth y Wasg a Materion Seneddol, Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru |
| Helen Northmore-Thomas | Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru |
| David Rosser | Cyfarwyddwr, CBI Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth, Yr Is-adran Ewropeaidd a Materion Allanol |
| Phil Bird | Yr Is-adran Ewropeaidd a Materion Allanol |
| Francis Cairns | Yr Is-adran Ewropeaidd a Materion Allanol |
| Des Clifford | Pennaeth Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel |
| Charles Coombs | Yr Uned Datblygiad Cynaliadwy |

| | |
|---|---|
| Howell Rees | Clerc y Pwyllgor |
| James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

Papur: EUR-03-02(p.1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Mr Jan Olbrycht, Marsial y Voivodeship Silesaidd, sef statws cyfatebol â'r Prif Weinidog, a Janet Davies a oedd yn bresennol yn rhinwedd ei swyddogaeth fel yr aelod eiledol newydd o Bwyllgor y Rhanbarthau.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ieuan Wyn Jones, Rhodri Glyn Thomas, Rosemary Butler, Glenys Kinnock, Eluned Morgan, Jill Evans a Rose D'Sa.

1.3 Amlygodd y Cadeirydd rai materion yn ychwanegol i'w adroddiad ysgrifenedig:

- Cyflwynwyd ymateb terfynol y Cynulliad i'r Papur Gwyn ar Lywodraethu, y cytunwyd arno yn dilyn cyfarfod diwethaf y pwyllgor ar 20 Mawrth, i'r Comisiwn Ewropeaidd ac roedd ar eu gwefan erbyn hyn. Yn ogystal, roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at Romano Prodi, Neil Kinnock, Michel Barnier, ASE yng Nghymru, Paul Murphy a Jerome Vignon gan amgáu copïau o'r ymateb. Byddai'r cyrff allanol a wahoddwyd i gyfrannu at yr ymateb hefyd yn cael copi.

- Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'n teithio i Frwsel ar 13 Mai 2002 i lofnodi cyd-ddatganiad ar lywodraethu gyda gr•p o ranbarthau eraill gan gynnwys: Emilia-Romagna, Hesse, Marche, Yr Alban, Flandrys, Wallonia, Twsgani, Skane ac Aquitaine. Roedd yr ymateb rhanbarthol Traws-Ewropeaidd hwn yn unigryw. Nododd Des Clifford bod angen coethi cynnwys y datganiad er mwyn sicrhau cytundeb ymhlith y rhanbarthau. Nid oedd sôn am gytundebau teiran yn y datganiad gan nad oedd rhanbarthau'r Almaen yn cytuno â'r cysyniad. Roedd y cyd-ddatganiad yn gam cadarnhaol ymlaen a gallai'r rhwydwaith a ddatblygwyd barhau y tu hwnt i'r ddadl ar lywodraethu i'r ddadl ar Ddyfodol Ewrop. Byddai'r Cadeirydd yn cyfarfod â'r Comisiynydd Barnier i bwyso am weithredu cynnar ar yr agenda llywodraethu ac i drafod goblygiadau Confensiwn Dyfodol Ewrop ar yr agenda hon.

- Enwebwyd Gwenda Thomas fel aelod llawn y Cynulliad ar Gynghrair Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol Ewrop (CLRAE) a oedd wedi'i rhannu yn siambr ranbarthol a lleol. Byddai Gwenda Thomas yn cynrychioli'r Cynulliad ar y siambr ranbarthol a byddai'n mynychu cyfarfod llawn CLRAE yn Strasbourg ar 3-6 Mehefin. Byddai'r Cynghorydd Alan Lloyd yn aelod amnewidiol ar y siambr leol.

- Gwahoddwyd Llysgennad Denmarc i fynychu cyfarfod nesaf y pwyllgor ar 12 Mehefin er mwyn trafod blaenoriaethau Llywyddiaeth Denmarc o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd, Gorffennaf i Ragfyr 2002.

- Mynychodd y Cadeirydd gyfarfod Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd y DU yn

Llundain ar 22 Ebrill. Cynhaliwyd trafodaeth am adolygiadau a blaenoriaethau cyfredol y pwyllgorau a chyfarfu'r gr•p â chynrychiolwyr T•'r Cyffredin ar Gonfensiwn Dyfodol Ewrop, sef Gisela Stuart, AS y Blaid Lafur ar gyfer Birmingham Edgbaston a David Heathcoat-Amory, AS y Blaid Geidwadol ar gyfer Wells. Roedd Gisela Stuart hefyd yn un o 12 aelod y Praesidiwm a oedd yn gyfrifol am lunio agenda'r Confensiwn.

1.4 Gwnaed y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau wrth drafod adroddiadau llafar ac ysgrifenedig y Cadeirydd:

- Ni ellid gwahanu'r materion a godwyd gan y Papur Gwyn ar Lywodraethu yn llwyr o'r Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop er y byddai'r materion cyfansoddiadol mwy yn cael eu hystyried gan y Confensiwn ac yn cael eu setlo yn ystod y Gynhadledd Rhyng-Lywodraethol yn 2004.

- Cytunodd y pwyllgor fod y cyd-ddatganiad ar lywodraethu yn dangos y diddordeb cyffredin rhwng rhanbarthau a'i fod yn gam cadarnhaol ymlaen. Roedd Cymru ac Emilia-Romagna wedi cydweithredu'n helaeth wrth baratoi'r datganiad ac o ganlyniad datblygodd cysylltiadau agos rhyngddynt.

- Byddai'r Comisiwn yn croesawu cyfraniadau ar y ddadl ar Ddyfodol Ewrop gan bob carfan o gymdeithas a thema ymweliad Romano Prodi â Chymru ar 24 Mai fyddai Dyfodol Ewrop.

- Cynrychiolwyd amrywiaeth eang o gyrff yng Nghynhadledd Ranbarthol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad a gynhaliwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol.

1.5 Trafododd y pwyllgor ddyfodol Canolfan Ewropeaidd Cymru (WEC):

- Roedd y Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol yn fforwm delfrydol ar gyfer trafod materion fel y WEC.

- Comisiynwyd Syr John Gray gan WEC i gyflwyno adroddiad ar ei ddyfodol ac roedd wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar y ffordd orau ymlaen. Byddai adroddiad yn cael ei gynhyrchu erbyn 10 Mehefin 2002.

- Roedd dyfodol y WEC yn fater i'w negodi gyda rhanddeiliaid eraill er nad oedd gan Lywodraeth y Cynulliad ddylanwad dros y penderfyniad a gymerwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i dynnu yn ôl o'r WEC. Sefydlwyd WEC fel corff rhanddeiliadol ond roedd yn rhaid wynebu'r ffaith pe cadarnhâi CLlLC eu penderfyniad i dynnu yn ôl, y byddai 90% o arian y WEC yn cael ei ddarparu naill ai'n uniongyrchol gan y Cynulliad neu drwy Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC). Ni fyddai'n hawdd cyfiawnhau bod y Cynulliad yn ariannu dwy swyddfa ym Mrwsel.

- Er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl yn Ewrop, roedd yn bwysig i Gymru sicrhau'r presenoldeb mwyaf effeithiol posibl ym Mrwsel.

- Roedd CCNC yn penderfynu'n annibynnol ar y dull gorau ar gyfer cael gwasanaeth gwybodaeth Ewropeaidd wedi'i deilwra i'w hanghenion eu hunain. Yn y cyd-destun cyfredol, byddai CCNC yn penderfynu aros yn aelodau o'r WEC neu ddod o dan ymbarél Swyddfa'r Cynulliad.

- Byddai Swyddfa Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel yn darparu cyfleusterau llawn i bob un o Aelodau'r Cynulliad wrth iddynt ymweld â sefydliadau Ewropeaidd ym Mrwsel. Byddai cais yn cael ei gyflwyno i'r Llywydd a Llywodraeth y Cynulliad sefydlu concordat ar y ffordd y byddai'r gwasanaeth hwn yn gweithredu.

- Roedd gan Swyddfa Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ym Mrwsel swyddogaeth led-llysgenhadol gan gynrychioli Cymru fel gwlad, tra'n derbyn ei gyfeiriad polisi gan Lywodraeth y Cynulliad. Roedd y WEC yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, deallusrwydd ac ymgyrchu i'w randdeiliaid ac roedd hefyd yn darparu cyfleusterau a gwybodaeth i bawb ym maes bywyd dinesig yng Nghymru.

- Er mwyn staff y WEC, roedd yn bwysig cytuno ar benderfyniad ar ddyfodol y WEC cyn toriad yr haf.

- Cytunodd y pwyllgor i ystyried y materion hyn eto yn dilyn cyhoeddi adroddiad Syr John Gray **(pwynt gweithredu)**.

**Eitem 2: Trafodaeth gyda Marsial y Voivodeship Silesaidd**

Papur: EUR-03-02(p.2)

2.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Jan Olbrycht i wneud cyflwyniad ar Silesia a'r rhagolygon ar gyfer cydweithrediad pellach rhwng Gwlad Pwyl a Chymru. Gwnaeth Jan Olbrycht gyflwyniad 'powerpoint' ar Silesia (a atodir yn Atodiad A).

2.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Roedd Silesia yn gwneud darpariaethau ar hyn o bryd ar gyfer agor swyddfa ym Mrwsel ym mis Medi 2002 fel rhan o ymgais i ddatblygu presenoldeb sylweddol yn Ewrop.

- Roedd Silesia yn chwilio am bartneriaid rhanbarthol i gyd-daro â derbyniad posibl Gwlad Pwyl i'r Undeb Ewropeaidd ac roedd yr un canlyniadau cymdeithasol yn sgîl gorffennol y diwydiant glo a dur i'w gweld yng Nghymru. Roedd nifer o gytundebau gan Silesia

eisoes gyda rhanbarthau yn yr Undeb Ewropeaidd ac roedd yn awyddus i lunio partneriaeth gyda Chymru cyn cael ei derbyn yn 2004. Byddai'r partneriaethau hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer paratoi prosiectau'r gronfa strwythurol a byddai cyfnewid gwybodaeth rhwng rhanbarthau yn hanfodol i ddatblygiad economaidd Silesia ar ôl ei derbyn.

- Roedd tebygrwyddau cryf rhwng strwythurau gwleidyddol Silesia a Chymru.

- Roedd gan weinyddiaeth Silesia gymwyseddau mewn sawl maes gan gynnwys gweithredu ysbytai, cyfrifoldebau diwylliannol, agweddau ar bolisi cymdeithasol, y system ffyrdd ranbarthol, cynllunio gofodol a systemau gwybodaeth ddaearyddol, casglu taliadau ar gyfer diogelu'r amgylchedd a chyfrifoldeb dros 150 o sefydliadau cyhoeddus. Byddai gweinyddiaeth Silesia hefyd yn bartner gweithredol ar gronfeydd strwythurol gan weithio ochr yn ochr â llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol annibynnol.

- Roedd Silesia am ddatblygu ei diwydiannau uwch-dechnoleg a thwristiaeth yn gyflym.

- Byddai gwerthu ynni a gynhyrchwyd yn Silesia yn bwysig yn y dyfodol.

- Roedd y diwydiant glo yn Silesia yn dal i gyflogi tua 30,000 o bobl. Roedd gan y llywodraeth ganolog yn Warsaw gyfrifoldeb dros ailstrwythuro'r sectorau diwydiannol trwm. Roedd yn debygol y gellid cynnal y gwaith o gynhyrchu glo yn Silesia drwy ymuno â marchnadoedd newydd. Roedd negodiadau ar gynllun cenedlaethol ar gyfer y diwydiant dur yng Ngwlad Pwyl yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd.

- Roedd y diwydiant amaethyddol yng Ngwlad Pwyl yn llawer mwy cadarnhaol erbyn hyn ynghylch bod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

- Byddai angen i Wlad Pwyl ddatblygu polisïau cydraddoldeb yn y dyfodol agos.

- Dywedodd y Cadeirydd y byddai Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio tuag at sefydlu cytundeb o gydweithrediad cyffredin rhwng Cymru a Silesia dros y misoedd nesaf.

**Eitem 3: Trafodaeth gydag Aelod o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd**

3.1 O ganlyniad i gyfyngiadau amser, cytunodd y pwyllgor i aildrefnu'r eitem hon ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 12 Mehefin.

**Eitem 4: Confensiwn Dyfodol Ewrop**

Papur: EUR-03-02(p.3)

4.1 Cyflwynodd Des Clifford y papur yn amlinellu paramedrau'r ddadl ar Ddyfodol Ewrop. Byddai Peter Hain, AS ar gyfer Castell-nedd a'r Gweinidog dros Ewrop, yn cynrychioli llywodraeth y DU ar y confensiwn gyda Gisela Stuart AS a David Heathcoat-Amory AS yn cynrychioli senedd y DU. Canlyniad tebygol y Confensiwn oedd y byddai'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn mabwysiadu cyfansoddiad i ddarparu un datganiad clir ar ei ddiben a'i rôl. Byddai cyfansoddiad hefyd yn disodli'r cytundebau presennol a oedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion llywodraethol. Ymhlith y prif faterion a fyddai'n cael eu hystyried fel rhan o'r ddadl mae rhannu cymwyseddau, symleiddio, rôl sefydliadau a chynyddu democratiaeth a thryloywder. Llywodraethau'r aelod wladwriaethau fyddai'r prif gyfranogwyr yn y ddadl a byddai'n bwysig i'r Cynulliad fanteisio ar bob cyfrwng posibl i ddylanwadu ar lywodraeth y DU. Gallai'r Cynulliad hefyd geisio dylanwadu ar y ddadl drwy Bwyllgor y Rhanbarthau.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Nid oedd unrhyw beirianwaith ffurfiol ar gyfer cyfrannu at y Confensiwn, er y gallai'r pwyllgor geisio dylanwadu ar y ddadl drwy gyflwyno cyfraniadau i aelodau'r Confensiwn.

- Roedd gan y pwyllgor ddiddordeb yn rôl haenen ranbarthol llywodraethau yn dilyn casgliadau'r Confensiwn. Cytunodd y Cadeirydd i drafod y mater hwn gyda'r aelodau rhanbarthol cyfatebol a'r Comisiynydd Barnier yn eu cyfarfod ar 13 Mai.

- Byddai'r Confensiwn yn ystyried pa un a ddylid creu sefydliad newydd i weithio ochr yn ochr â Chyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop. Gallai'r sefydliad newydd gynnwys cynrychiolwyr o seneddau'r aelod wladwriaethau, haenau rhanbarthol llywodraethau neu o bwyllgorau Ewropeaidd. Byddai angen i'r Confensiwn bennu rôl Pwyllgor y Rhanbarthau yn y dyfodol pe crëwyd sefydliad newydd.

- Gallai mwy o gyfranogiad gan haenau rhanbarthol llywodraethau yn yr UE gyfrannu at ostwng ymddieithrwch dinasyddion, er ei fod yn broblem arwyddocaol yr oedd angen rhoi sylw iddi ar bob lefel.

**Eitem 5: Arian Sengl Ewrop**

Papur: EUR-03-02(p.4)

5.1 Croesawodd y Cadeirydd David Rosser, Cyfarwyddwr CBI Cymru, Russell Lawson, a Helen Northmore-Thomas o'r Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru (FSB) a John Casterton, Rheolwr Tasglu'r Ewro yng Nghymru i drafod goblygiadau'r arian sengl yng Nghymru gyda'r pwyllgor.

5.2 Dywedodd David Rosser bod aelodau'r CBI wedi ymdopi â chyflwyno'r arian sengl yng

Nghymru yn gyfforddus. Roedd busnesau wedi llwyddo i gynnal trafodion drwy gyfrwng yr Ewro fel y byddent gydag unrhyw arian tramor ac nid oedd y CBI wedi derbyn unrhyw geisiadau am gymorth gan ei aelodau. Yr unig broblem yr oedd y CBI yn ymwybodol ohoni oedd un yn ymwneud â chlirio sieciau traws ffiniol.

5.3 Amlinellodd Helen Northmore-Thomas yr ymchwil a gynhaliwyd gan yr FSB ar effaith yr arian sengl yng Nghymru. Daeth dau ymateb cyffredin i'r amlwg gan aelodau'r FSB yn sgîl yr ymchwil, sef nad oedd rhai busnesau wedi derbyn gwybodaeth am yr Ewro, ac nad oeddent am dderbyn gwybodaeth o'r fath, ac roedd rhai yn pryderu am effaith bosibl yr Ewro ac wedi derbyn gormod o wybodaeth. Thema gyffredin ymhlith aelodau'r FSB oedd nad oedd gan yr Ewro unrhyw berthnasedd ar hyn o bryd i fusnesau nad oeddent yn gweithredu dramor ac nad oedd y galw i wario Ewros yng Nghymru wedi dod i'r amlwg.

5.4 Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Prin oedd y dystiolaeth i awgrymu fod busnesau yn wynebu problemau pe byddai'n rhaid iddynt gynhyrchu dyfynbrisiau mewn Ewros.

- Roedd y broblem mewn perthynas â chlirio sieciau yn bodoli cyn cyflwyno'r arian sengl ac roedd yn ymwneud fwy â gwahanol systemau clirio o fewn aelod wladwriaethau na banciau a oedd yn codi comisiwn.

- Wrth ymdopi â materion ymarferol megis prynu tiliau i ymdrin â'r Ewro, roedd yn rhaid i awdurdodau lleol a busnesau archwilio gwerth ac anghenraid y gwariant hwn.

- Byddai effaith yr Ewro yng Nghymru yn gliriach ym mis Medi yn dilyn y prif dymor twristiaeth.

- Roedd y diwydiant bancio wedi cynnig cyngor ymarferol i fusnesau wrth i'r arian sengl gael ei gyflwyno.

- Dylid symleiddio'r wybodaeth sydd ar gael am yr Ewro a dylai cyngor fod yn syml, gan ymdrin â materion busnes penodol.

- Roedd yr arian sengl yn newydd i bob un o ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd a rhoddwyd sicrwydd i'r pwyllgor nad oedd busnesau yng Nghymru wedi profi unrhyw broblemau mawr hyd yn hyn.

**Eitem 6: Rhaglenni Trawsgenedlaethol Ewropeaidd**

Papur: EUR-03-02(p.5)

6.1 Cyflwynodd Francis Cairns y papur a oedd yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r pwyllgor ar raglenni cydweithredu Traws-Ewropeaidd. Cymeradwywyd y tair rhaglen a oedd yn effeithio ar Gymru gan y Comisiwn Ewropeaidd ond roeddent ar wahanol gamau o ran eu gweithredu:

- Roedd cais cyntaf rhaglen Gogledd Orllewin Ewrop am geisiadau yn mynd rhagddo a byddai’n cau ar 15 Mai. Cynhaliwyd Pwyllgor Monitro cyntaf y Rhaglen (PMC) ar 25 Ebrill ym Mrwsel a chynrychiolwyd y gweinyddiaethau datganoledig gan John Griffiths. Byddai’r Pwyllgor Llywio a fyddai’n cymeradwyo, gohirio neu wrthod prosiectau yn cyfarfod ar 26-27 Mehefin a byddai cynrychiolydd o Awdurdod Datblygu Cymru yn eistedd ar y pwyllgor. Byddai’r ail gais am brosiectau yn cael ei gynnal yn ystod yr hydref.

- Nid oedd yn debygol y byddai’r cais cyntaf am brosiectau yn rhaglen Ardal yr Atlantig yn cael ei gynnal tan yr hydref. Byddai’r Cynghorydd Alan Barrett yn eistedd ar y PMC am y ddwy flynedd gyntaf. Bwriadwyd lansio’r rhaglen ar 24 Mehefin yn Poitiers.

- Roedd Cymru ym Mharth y Gorllewin o fewn y rhaglen Interreg IIIC ac roedd cynnwys y rhaglen yn cael ei ailddrafftio ar hyn o bryd. Y nod oedd sicrhau bod pecynnau gwybodaeth ar gael yn ystod yr haf ond nid oedd dyddiadau cais y prosiect wedi’u pennu eto.

6.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Dywedodd John Griffiths i fanylion technegol o ran iaith gael eu trafod yn y pwyllgor monitro rhaglen a fynychwyd ganddo. Cynigiwyd diffiniad ehangach o brosiectau effaith arwyddocaol ar gyfer gwledydd unigol gan yr Almaen a chytunodd y pwyllgor monitro arno. Cafwyd trafodaeth hefyd ar bosibilrwydd cynnal digwyddiadau yng Nghymru ar themâu trawsbynciol.

- Dim ond aelod wladwriaethau all wneud cais am arian gan y rhaglen. Byddai gwladwriaethau derbyn yn gallu ymuno â’r rhaglenni maes o law a nododd Jan Olbrycht fod Silesia wrthi’n arsylwi’r rhaglenni IIIB ac IIIC gyda diddordeb cynyddol.

- Roedd y rheoliadau Ariannu Datblygiad Rhanbarthol Ewropeaidd arferol yn berthnasol i bob un o’r rhaglenni. Roedd oedi i’r broses ar hyn o bryd ond pan fyddai’n datblygu byddai’n bwysig i’r arian gael ei ddefnyddio pan oedd ar gael er mwyn osgoi’r perygl y byddai’n cael ei dynnu yn ôl.

**Eitem 7: Datblygiad Cynaliadwy**

Papur: EUR-03-02(p.6)

7.1 Cyflwynodd Charles Coombs y papur gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am rwydwaith datblygiad cynaliadwy arfaethedig Ewrop-gyfan y Cynulliad. Paratowyd cais diwygiedig am arian o dan gyfundrefn grantiau 'Gweithrediadau Arloesol' y Comisiwn Ewropeaidd ac roedd trafodaethau ar y cais wedi cyrraedd lefel derfynol. Yn amodol ar ystyriaeth weinidogol, byddai'r cais yn cael ei anfon i'r Comisiwn i gael cymeradwyaeth.

7.2 Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Croesawodd y pwyllgor y cynnydd ar y prosiect hwn gan gydnabod arwyddocâd cysylltu â rhanbarthau eraill ar y lefel Ewropeaidd.

- Roedd y cais am gymorth ar gyfer y rhwydwaith hwn yn gysylltiedig â chais ar gyfer pedwar prosiect yng Nghymru, sef: ehangu'r rhaglen 'Landmap'; prosiect lle roedd ymgynghorwyr yn gweithio gyda sefydliadau bach ar gynaladwyedd (wedi'i hwyluso gan Brifysgol Gogledd Cymru, Bangor); prosiect rhwng Awdurdod Datblygu Cymru a mentrau bach a chanolig eu maint i nodi cyfleoedd mewn technolegau newydd, cynaliadwy; a phrosiect arsylwi wedi'i leoli yn Ysgol Fusnes Caerdydd a fyddai'n archwilio'r prosiectau eraill ac yn cysylltu â'r Comisiwn i ddatblygu arfer da ym maes datblygiad cynaliadwy.

**Eitem 8: Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

8.1 Nododd Jos Gallagher y byddai Canolfan Ewropeaidd Cymru yn parhau i ddosbarthu adroddiadau chwarterol i aelodau'r pwyllgor.

8.2 Nid oedd unrhyw gyfraniadau pellach gan y gwahoddedigion sefydlog.

**Eitem 9: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Papur: EUR-02-02(min)

9.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15pm.